# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 21/04/10

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**


1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus

2 Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth


## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus

| **Recriwtio** |
|---|
| **C3 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am recriwtio ar gyfer practisiau cyffredinol mewn ardaloedd sy'n ddifreintiedig yn gymdeithasol? OAQ(3)1475(HSS) |
| **Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus (Edwina Hart):** Nid oes gennym ystadegau ar recriwtio meddygon teulu mewn ardaloedd dan anfantais gymdeithasol. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw drafferthion mewn perthynas â recriwtio meddygon teulu yng Nghymru. |

*Atebwyd cwestiynua 4,5,6, yn ystod y Cyfarfod Llawn*

| **Adeiladau Ysbytai** |
|---|
| **C7 Irene James:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella adeiladau ysbytai yn Nwyrain De Cymru? OAQ(3)1487(HSS) |
| **Edwina Hart: :**Rwy'n cydnabod pwysigrwydd cael adeiladau sy'n addas i'r diben wrth ddarparu gofal iechyd. Er mai cyfrifoldeb y Byrddau Iechyd yn bennaf yw cynnal eu hystâd mewn modd sy'n briodol, mae fy rhaglen gyfalaf hefyd ar gael i fynd i'r afael â phroblemau mwy dyrys a chostus lle bo hynny'n ymarferol. Mae datblygu ysbytai newydd yn caniatáu i'r hen rai gau. |
| **Gofal Parhaus** |
| **C12 Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ariannu gofal parhaus? OAQ(3)1507(HSS) |
| **Edwina Hart:** Y dyraniadau yn ôl disgresiwn a wnaed i'r Byrddau Iechyd yw'r brif ffynhonnell o arian ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus. Yn ogystal â hynny mae cyllideb ganolog o fewn Prif Grŵp Gwariant (MEG) y Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol sydd wedi'i hanelu at ariannu cynlluniau strategol sy'n gyrru ymlaen y newid i wasanaethau ac yn rhoi modelau gofal newydd ar waith. |

| **Gwasanaethau Niwrowyddoniaeth** |
|---|
| **C13 Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiwygio gwasanaethau niwrowyddoniaeth yng Nghymru? OAQ(3)1505(HSS) |
| **Edwina Hart:** Bydd gweithredu ar ganlyniad yr Adolygiad o Wasanaethau Niwrowyddorau i Oedolion yn arwain at well gwasanaethau i gleifion. Mae Byrddau Iechyd Lleol yn y broses o fwrw ymlaen â'r cynlluniau gweithredu rhanbarthol a ddatblygwyd ar gyfer y Gogledd, y Canolbarth a'r De. |
| **Cynghorau Iechyd Cymuned** |
| **C14 Trish Law:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o'r newid diweddar o'r hen Gynghorau Iechyd Cymuned i'r Cynghorau Iechyd Cymuned newydd? OAQ(3)1499(HSS) |
| **Edwina Hart**: Fy asesiad i yw y bu'r trawsnewid yn llwyddiannus iawn a hynny o fewn amserlen dynn iawn. |
| **Diffibrilwyr** |
| **C15 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu diffibrilwyr yng Nghanol De Cymru? OAQ(3)1485(HSS) |
| **Edwina Hart:** Datblygwyd cynllun datblygu strategol ar gyfer Cymru gyfan sy'n cynnwys cynlluniau i helpu cleifion i gael Diffibrilwyr Cardiaidd wedi'u Mewnblannu. Mae'r £2.550m ychwanegol a neilltuwyd gennyf ar gyfer gwasanaethau arhythmia er 2009-10 i gefnogi'r cynllun hwn wedi'i roi i Fyrddau Gwasanaethau Lleol o 2010-11 ymlaen a disgwyliaf iddynt barhau i weithredu'r cynllun. |

## Cwestiynau i'r Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth

| **Ffordd Ddosbarthu Ymylol** |
|---|
| **C2 Brian Gibbons:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Ffordd Ddosbarthu Ymylol ym Mhort Talbot? OAQ(3)1423(ECT) |
| **Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth (Ieuan Wyn Jones):** Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot i gyflwyno'r cynllun ar gyfer Ffordd Ddosbarthu'r Cyrion. Mae'r Awdurdod wedi gwneud cais am Arian Cydgyfeirio ar gyfer Cam 2 o'r cynllun. |

*Atebwyd cwestiynau 3,4,5,6,7,8, yn ystod y Cyfarfod Llawn*

| **Ailagor Twnelau Rheilffyrdd Segur** |
|---|
| **C9 Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch ailagor twnelau rheilffyrdd segur? OAQ(3)1441(ECT) |
| **Ieuan Wyn Jones:** Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn ei gwneud hi'n glir y byddwn yn edrych am gyfleoedd i ddod â'r llinellau rheilffyrdd segur yn ôl yn rhan o'r rhwydwaith trafnidiaeth. Mae'n bosibl hefyd y bydd hyn yn cynnwys darparu llwybrau |

cerdded a beicio newydd.

**Economi Gogledd Orllewin Cymru**

**C10 Brynle Williams:** Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer cefnogi economi Gogledd Orllewin Cymru? OAQ(3)1439(ECT) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Dirprwy Weinidog Wyddoniaeth, Arleosi a Sgiliau***

**Y Dirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau (Leslie Griffiths):** Ein blaenoriaeth ledled Cymru yw creu economi gref a mentrus sy'n cynnig swyddi i bawb a'r swyddi hynny yn rhai o safon. Er 1 Ebrill 2009, gwnaed 88 o gynigion o'r Gronfa Fuddsoddi Sengl gwerth dros £3.5 miliwn i gwmnïau yng Ngogledd-orllewin Cymru, gyda gwariant cyfalaf o £8.5 miliwn i greu neu ddiogelu 581 o swyddi.

**Trafnidiaeth Gyhoeddus**

**C11 Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei brif flaenoriaethau ar gyfer gwella trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru? OAQ(3)1448(ECT)

**Ieuan Wyn Jones:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer gwella trafnidiaeth gyhoeddus wedi'u pennu yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol a gyhoeddwyd gennyf ar 29 Mawrth.

**Band eang**

**C12 Darren Millar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad band eang yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1459(ECT)

**Ieuan Wyn Jones:** Rwy'n ymwybodol o nifer o fannau gwan ar gyfer derbyn band eang yng Ngogledd Cymru, ac rydym yn gweithio er mwyn ceisio'u datrys. Pennwyd arian Ewropeaidd er mwyn gwneud y gwaith hwn ac rwy'n disgwyl gwneud datganiad cynnar am gynllun fydd yn helpu i ddarparu band eang yn yr ardaloedd hynny sy'n anodd eu cyrraedd.

**Allforion o Gymru**

**C13 David Melding:** Pa fesurau sydd ar waith i godi lefel yr allforion o Gymru? OAQ(3)1437(ECT)

**Ieuan Wyn Jones:** Darperir cymorth drwy'r rhaglen Cymorth Hyblyg i Fusnes er mwyn helpu cwmnïau yng Nghymru i fod yn fwy rhyngwladol. Cynlluniwyd y cymorth i ddatblygu gallu a chapasiti cwmnïau o Gymru i fasnachu'n rhyngwladol a helpu i greu allforwyr newydd ac mae'n cynnwys rhaglen dros gyfnod o 5 mlynedd sy'n werth £13.9 miliwn a ariannwyd gan yr ERDF ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd.

**Teithio ar Rheilffyrdd**

**C14 Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth ar gyfer teithio ar reilffyrdd yng Ngogledd Cymru? OAQ(3)1458(ECT)

**Ieuan Wyn Jones:** Mae fy mlaenoriaethau ar gyfer cefnogi teithio ar reilffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi'u nodi yn y Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol. Maent yn cynnwys ymrwymiad i wella cyflymder, ansawdd a pha mor ddibynadwy yw'r cysylltiadau rheilffordd rhwng y de a'r gogledd.

**Canol Trefi**

| |
|---|
| **C15 Paul Davies :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi economïau lleol yng nghyswllt canol trefi? OAQ(3)1465(ECT) |
| **Ieuan Wyn Jones:** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn creu fframwaith ar gyfer creu swyddi ar draws Cymru. Mae hyn yn cynnwys darparu cymorth drwy, er enghraifft y Cymorth Hyblyg i Fusnes, y Gronfa Fuddsoddi Sengl a Workways De-orllewin Cymru. Yn ogystal, ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol welliannau i'r rhyddhad ardrethi i fusnesau bach, gan sicrhau cymorth ychwanegol sydd werth hyd at £20 miliwn. |